



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd a Reolir yn Wirfoddol
yr Eglwys yng Nghymru San Pedr
Lôn y Capel
Yr Orsedd
Wreccsam
LL12 0EE**

Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2016

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© **Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Dyddiad cyhoeddi: 07/09/2016

Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd a Reolir yn Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru San Pedr yn yr Orsedd, yn awdurdod lleol Wrecsam. Mae'r ysgol yn esgobaeth Llanelwy. Mae 234 o ddisgyblion 3 i 11 oed ar y gofrestr. Ceir cyfanswm o naw o ddsbarthiadau, sef saith dosbarth un oedran a dau ddsbarth oed cymysg.

Dros y tair blynedd diwethaf, 4% oedd cyfran gyfartalog y disgyblion a oedd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ac mae hyn ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol (20%). Mae'r ysgol yn nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 7% o ddisgyblion, sydd ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol (25%).

Mae bron pob un o'r disgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig. Nid yw'r un o'r disgyblion yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Yn Hydref 2011 y cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r ysgol. Ymgwymerodd y pennaeth â'i swydd yn Ionawr 2007.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd a Reolir yn Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru San Pedr yn 2015-2016 yw £3,209. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Wrecsam yw £8,199 a'r lleiafswm yw £2,778. Mae Ysgol Gynradd a Reolir yn Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru San Pedr yn safle 45 o'r 60 o ysgolion cynradd yn Wrecsam o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'n dda
- mae bron yr holl ddisgyblion yn deall bod bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff rheolaidd yn bwysig i'w hiechyd
- mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu perthnasol a diddorol i'r rhan fwyaf o ddisgyblion, ac mae hyn yn effeithio'n bwrpasol ar eu safonau
- yn gyffredinol, mae'r addysgu'n llwyddiannus ac yn cefnogi dysgu effeithiol
- mae'r ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion yn ddyfal a phwrpasol
- mae'r defnydd o staff cymorth i gynorthwyo'r addysgu a'r dysgu yn llwyddiannus, ac yn gryfder yn yr ysgol
- mae staff yn defnyddio'r amgylcheddau dysgu dan do ac yn yr awyr agored yn greadigol, gan sicrhau bod yr adeilad a'r tir yn ysgogi dysgu'r disgyblion yn effeithiol

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod y pennaeth, yr uwch dîm arwain a'r llywodraethwyr yn darparu cyfeiriad clir ar gyfer gwaith yr ysgol
- mae hanes dibynadwy gan yr ysgol o reoli gwelliannau dros gyfnod
- mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn drylwyr ac mae targedau pwrpasol ar gyfer gwella yng nghynllun datblygu'r ysgol
- mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda
- mae partneriaethau effeithiol yn cefnogi deilliannau disgyblion yn gadarnhaol
- mae pob un o'r staff yn gadarnhaol ynglŷn â gwella eu harferion ac yn cymryd rhan weithredol mewn datblygiad a hyfforddiant proffesiynol, sy'n effeithio ar ddysgu'r disgyblion yn effeithiol

Argymhellion

- A1 Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o iaith a diwylliant Cymru
- A2 Mireinio cynllunio i sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio'n unol â'u galluedd, yn enwedig y disgyblion mwy abl
- A3 Sicrhau bod yr adborth i waith disgyblion yn gyson a'i fod yn arwain yn uniongyrchol at y camau nesaf yn eu dysgu
- A4 Mynd i'r afael â'r mater sy'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n gyson â'u hoedran neu'n uwch na hynny a ddisgwylir am eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn, ac yn cyflawni'n dda erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus ac yn gwrando'n astud. Trwy gydol y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn frwdfrydig i'w hathrawon a disgyblion eraill wrth drafod eu gwaith mewn paruau, grwpiau ac fel dosbarth cyfan. Maent yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau, yn ymateb yn barod i gwestiynau ac yn cyfranogi mewn sgwrs bwrpasol yn ystod gweithgareddau a sesiynau chwarae.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn synhwyrol gydag oedolion a disgyblion eraill gan ddefnyddio ystod eang o eirfa. Mae ychydig ohonynt yn defnyddio geirfa soffistigedig i ymhelaethu'n huawdl ar eu trafodaethau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar drafodaethau grŵp ac yn cyfrannu'n synhwyrol. Maent yn cyfranogi'n effeithiol mewn dadleuon ac yn cynnig barnau sy'n procio'r meddwl, er enghraifft ar bwysigrwydd diogelwch ar y rhyngrwyd a ph'un ai a ddylid defnyddio tir amaethyddol o amgylch y pentref ar gyfer datblygiadau tai.

Mae medrau darllen bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'n dda ac yn unol â'u galluoedd. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhesymol o rugl. Maent yn trafod ac yn darllen llyfrau'n gywir a gyda mynegiant da. Maent yn lleisio barnau perthnasol ynglŷn â chynnwys storiâu ac yn rhagweld yn fanwl beth mae cymeriadau gwahanol yn debygol o wneud mewn stori. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth sicr o'r cyd-destun, cymeriadau a'r plotiau yn y storiâu y maent yn eu darllen yn y dosbarth ac yn unigol. Maent bron i gyd yn mwynhau ailadrodd storiâu, gan gynnwys eu rhai eu hunain. Maent yn actio digwyddiadau ac yn cofio manylion gyda chywirdeb.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen i safon sydd o leiaf yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Mae'r disgyblion mwy abl ym mhob dosbarth yn darllen yn dda iawn. Tuag at ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio llyfrau ffeithiol a'r rhyngrwyd yn effeithiol i chwilio am wybodaeth berthnasol a dibynadwy am y testunau y maent yn eu hastudio yn y dosbarth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ateb cwestiynau'n synhwyrol ynglŷn â'r mathau amrywiol o destunau y maent yn eu darllen, sy'n cynnwys ffeithiau am ddegawdau gwahanol yr ugeinfed ganrif, storiâu ffuglennol a bywgraffiadau o wleidyddion ac artistiaid enwog. Maent yn rhannu'u barnau yn llwyddiannus yn ystod trafodaethau, er enghraifft ynglŷn ag ymchwil ac arbrogion gwyddonol, fel yr amodau sydd eu hangen i dyfu hadau.

Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu dyddiaduron a barddoniaeth, yn cofio ffeithiau am straeon o'r Beibl fel Dafydd a Goliath, ac yn creu posteri ar noson tân gwyllt. Mae hyn yn dangos dealltwriaeth dda o ddilyniannu digwyddiadau, adrodd storïau gyda dychymyg a sut i nodi ffeithiau am destunau penodol. Maent yn ailadrodd storïau yn gywir yn eu harddulliau ysgrifenedig eu hunain, yn electronig ac ar bapur. Maent yn defnyddio mapiau stori a chwarae rôl i roi strwythur priodol i'w hysgrifennu creadigol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu mewn amrywiaeth addas o ffurfiau, er enghraifft cyfarwyddiadau ar fymieiddio, esboniadau ar ddeunyddiau hydawdd ac anhydawdd a darnau o ffuglen anturus. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ymestyn eu hysgrifennu mewn ffyrdd diddorol, yn creu llyfrynau am yr Aifft ac yn ymchwilio i ffeithiau rhifiadol ar effaith mewnffudo ar fwydydd sy'n cael eu bwyta ym Mhrydain ers yr Ail Ryfel Byd. Maent yn cymhwyso'u medrau llythrennedd yn dda ym mhob un o feysydd y cwricwlwm. Mae sillafu ac atalnodi'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gywir ac yn gyson â'u hoedran a lefel eu gallu. Yn gyffredinol, mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad y gwaith yn ddestlus ac wedi'i drefnu'n dda, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn y Cyfnod Sylfaen yn cyfrif, yn trefnu ac yn didoli rhifau hyd at 20 yn gywir. Maent yn adnabod siapiau yn gywir, fel sgwariau, petrylau, trioglau a chylchoedd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn mesur amser yn dda wrth gyfrifo gwahanol bellteroedd a deithiwyd a pha mor hir y mae'n cymryd i wneud hynny. Mae llawer ohonynt yn gweithio allan pa gyfanrifau sydd eu hangen arnynt i gyd-fynd â'i gilydd i lwyddo i wneud cant. Mae eu dealltwriaeth o ffracsiynau syml, ailadrodd patrymau ac amser mewn fformatau analog a digidol yn datblygu'n dda. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhif yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall nodweddion siapiau tri dimensiwn, fel ciwbiau a chiwboïdau. Maent yn defnyddio'r disgrifiadau hyn, wrth ddefnyddio gwrthrychau bob dydd i adeiladu robot. Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio medrau mathemategol i ddadansoddi a datrys problemau yn yr holl feysydd dysgu. Mae hyn yn cynnwys dilyn cyfarwyddiadau i ddatrys helpa drysor a chreu cardiau Nadolig codi.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir mewn ystod o gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn defnyddio canrannau o feintiau yn gywir ac yn esbonio'n glir sut gwnaethant lunio'u hatebion. Mae dealltwriaeth gadarn gan y rhan fwyaf o ddisgyblion o sut i gyflwyno ystod o ddata, ac maent yn ei ddehongli i ddarparu esboniadau a chasgliadau synhwyrol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynd ati'n synhwyrol i ddewis eu dulliau eu hunain o gofnodi data rhifiadol, ac maent yn esbonio'n drylwyr pam maent yn meddwl mai hwn yw'r dull mwyaf effeithiol o gyfleu'r wybodaeth a gasglwyd. Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth gymhwyso cysyniadau mathemategol i dasgau heriol ar draws meysydd pwnc gwahanol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cyfeiriadau cwmpawd wrth gyfeiriadu o amgylch yr ysgol, a mesur yn gywir wrth greu modelau symud ar gyfer y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae safonau'r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn Cymraeg yn briodol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn cyflawni'n foddhaol mewn gwersi, gan wrando'n briodol ac ymateb i sefyllfaoedd gwahanol o bryd i'w gilydd. Ychydig iawn o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 sy'n defnyddio Cymraeg achlysurol yn naturiol, a lleiafrif o ddisgyblion sy'n gwneud cynnydd digonol o ran datblygu medrau yn y Gymraeg.

Mae perfformiad disgyblion o ran y deiliant disgwylidig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn tueddu gosod yr ysgol yn y 50% uwch ar gyfer llythrennedd a datblygiad mathemategol dros y pedair blynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae hyn yn wir hefyd ar y lefel uwchlaw'r deiliant disgwylidig dros yr un cyfnod ar gyfer llythrennedd. Fodd bynnag, mae datblygiad mathemategol o ran y lefel uwchlaw'r deiliant disgwylidig wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg am dair o'r pedair blynedd diwethaf.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn Saesneg a gwyddoniaeth ar y lefel ddisgwylidig a'r lefel uwch na'r disgwyl wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad mewn mathemateg yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf o ran y lefel ddisgwylidig a'r lefel uwch na'r disgwyl.

Mae perfformiad cyffredinol disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn tueddu bod fymryn islaw perfformiad disgyblion eraill yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Lles: Da

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd. Maent yn gwybod sut i gadw'n iach drwy fwyta'n synhwyrol a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd drwy weithgareddau chwaraeon a gweithgareddau eraill. Er enghraifft, mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn bwyta ffrwythau bob dydd, ac mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ennill pwyntiau tŷ am fwyta byrbrydau iach. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hefyd yn cyfranogi mewn nifer o glybiau chwaraeon sy'n gwella lefelau eu ffitrwydd.

Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Mae disgyblion yn gwybod y bydd staff yn gwrandao ar eu pryderon ac yn ymateb yn effeithiol. Mae cyfraddau presenoldeb cyffredinol disgyblion wedi tueddu gosod yr ysgol yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pum mlynedd diwethaf. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn gweithio'n dda gyda disgyblion eraill. Maent yn foesgar ac yn barchus tuag at oedolion a'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos cwrteisi ac ymddygiad da yn yr ystafell ddosbarth ac ar yr iard chwarae. Mae disgyblion o gyfnod allweddol 2 yn goruchwyllo ardaloedd chwarae ar yr ierdydd amser egwyl, ac mae hyn yn cefnogi datblygu cyfrifoldeb cymunedol yn dda. Maent yn cynorthwyo disgyblion iau yn effeithiol drwy ddefnyddio offer chwaraeon a chyfranogi mewn gweithgareddau gwahanol.

Mae aelodau o'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cymryd rhan weithgar ym mywyd yr ysgol ac yn gwneud penderfyniadau sydd o fudd i'r holl ddisgyblion. Er enghraifft, maent wedi trefnu mwy o finiau sbwriel o amgylch yr ysgol, a sebon hylif yn y toiledau. Fe wnaethant hefyd bendefynu defnyddio'u cyllideb i ddarparu offer chwarae i'w ddefnyddio gan ddisgyblion amser egwyl.

Mae disgyblion yn cynrychioli'r ysgol yn dda mewn digwyddiadau cymunedol lleol, fel y gwasanaeth lleol ar Ddydd y Cofio, gwyliau'r cyngor cymuned a chasgliadau'r gydweithfa fwyd. Mae'r gweithgareddau hyn yn cryfhau eu cyfranogiad yn eu hardal leol ac yn cyfrannu'n werthfawr at eu datblygiad personol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu o ansawdd da sy'n bodloni anghenion a diddordebau'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Mae cynlluniau athrawon yn cwmpasu gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yn addas ac yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth disgyblion. Cynigir llawer o gyfleoedd diddorol a phwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi gweithredu system newydd o gynllunio trawsgwricwlaidd, ond mae'n rhy gynnar i farnu ei heffaith.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion. Caiff disgyblion ddefnyddio llechi a chyfrifiaduron cludadwy ac mae'r ddarpariaeth hon yn eu galluogi i ddefnyddio'u medrau TGCh yn effeithiol mewn ystod o bynciau. Er enghraifft, yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cynnal ymchwil ar y rhyngwyd yn annibynnol ar offer cludadwy i ymchwilio i ffasiwn mewn degawdau gwahanol, a digwyddiadau byd cyfredol fel y gemau Olympaidd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn effeithlon ac mae llawer o staff yn defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol ac yn rheolaidd gyda disgyblion. Caiff hyn effaith foddhaol ar ddatblygiad disgyblion yn y Gymraeg. Ceir cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddysgu am eu hardal a hanes a diwylliant Cymru. Fodd bynnag, nid yw hyn yn effeithio ar wybodaeth a dealltwriaeth o dreftadaeth Cymru a chyd-destun Cymru yn y byd ehangach yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol amser cinio ac ar ôl ysgol sy'n hyrwyddo ffitrwydd a chyfranogiad yn y gymuned. Mae'r ysgol hefyd yn cyfranogi mewn ystod o weithgareddau chwaraeon sy'n darparu llawer o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ac i gael profiad o gemau cystadleuol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae biniau ailgylchu yn nodwedd gyffredin ar draws yr ysgol, ac mae'r ysgol yn annog disgyblion a staff i fynd i'r afael â materion cadwraeth yn dda. Mae hyn yn cynnwys lleihau'r defnydd o ddŵr a thrydan, a datblygu ardal gadwraeth yn yr awyr agored i wella gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o fyd natur.

Ceir cysylltiadau defnyddiol gydag ysgol ym Malawi, ac mae hyn yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion weithredu fel dinasyddion byd-eang. Er enghraifft, fe wnaeth yr ysgol ariannu dalenni rhychiog ar gyfer to ysgol bentref ym Malawi, a rhoi gwisgoedd ysgol a dillad chwaraeon i ddisgyblion yr ysgol.

Addysgu: Da

Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio'n dda i sicrhau bod lefelau cymhellant uchel gan ddisgyblion a'u bod yn ymgysylltu'n dda â'u gweithgareddau dysgu. Mae'r holl oedolion yn creu awyrgylch gweithio pwrpasol yn yr ystafelloedd dosbarth ac yn yr awyr agored. Maent yn ymateb gyda diddordeb i atebion disgyblion ac yn rhoi anogaeth effeithiol iddynt. Mae athrawon yn hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion yn llwyddiannus, er enghraifft mewn darpariaeth barhaus ag iddi strwythur da yn y Cyfnod Sylfaen, ac ymchwiliadau a thasgau ymchwil rheolaidd yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, nid yw'r tasgau sy'n cael eu cynllunio ar gyfer y disgyblion mwy abl bob amser yn cynnig digon o her iddynt, ac nid ydynt yn cyflwyno'u gwaith gorau ar ddiwedd tasgau bob tro. Mae staff cymorth yn cyfoethogi profiadau grwpiau ac unigolion yn gyson dda, ac mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae staff yn rheoli ymddygiad yn bwrpasol drwy bennu disgwiliadau clir ynglŷn â beth sy'n dderbyniol. Yn ystod gwersi llwyddiannus, mae gwybodaeth bynciol dda, holi medrus ac amrywiaeth o ddulliau addysgu yn ennyn diddordebau'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn. Mae gwersi'n cynnwys adnoddau da ac mae athrawon yn rhannu bwriadau dysgu yn effeithiol gyda disgyblion. Mewn ychydig iawn o wersi, mae athrawon yn cyflwyno am gyfnodau rhy hir ac mae disgyblion yn aros yn oddefol am gyfnodau estynedig. Mae hyn yn effeithio'n niweidiol ar fomentwm y wers a chyfleoedd dysgu disgyblion.

At ei gilydd, mae athrawon yn defnyddio asesu'n bwrpasol i nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Maent yn olrhain cynnydd disgyblion yn fanwl. Mae bron yr holl athrawon yn nodi agweddau cadarnhaol yng ngwaith disgyblion ac yn rhoi awgrymiadau ynglŷn â sut gall disgyblion wella eu gwaith. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae athrawon yn darparu adborth priodol yn rheolaidd yn llyfrau'r plant. Mae'r adborth yn nodi'r camau nesaf yn nysgu disgyblion trwy dargedau cytûn ar gyfer gwella, ond anghyson yw ei effaith ar draws yr ysgol.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn bodloni'r gofynion ac yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd disgyblion. Maent yn nodi cyraeddiadau disgyblion yn erbyn y fframwaith llythrennedd a rhifedd ac yn nodi targedau clir ar gyfer gwella.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd diogel a gofalgarn a cheir ethos o barch a chefnogaeth i bawb yng nghymuned yr ysgol. Mae'r cymorth a'r arweiniad sy'n cael eu cynnig i ddisgyblion yn sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn pryderu neu'n poeni. Mae staff yn mynd ati'n effeithiol i annog y disgyblion sy'n agored i niwed yng nghyfnod allweddol 2 trwy raglen i wella hunanhyder. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu medrau emosiynol a chymdeithasol. Mae trefniadau priodol gan yr ysgol i hyrwyddo ac annog bwyta ac yfed yn iach, ac ymarfer corff rheolaidd.

Mae athrawon yn darparu tasgau effeithiol i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth eang o amrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i ystyried fod gan bobl yn eu gwlad eu hunain a phobl o amgylch y byd safbwyntiau gwahanol i rai pobl eraill.

Mae staff yn darparu llawer o gyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu'u hymwybyddiaeth gymdeithasol, foesol ac ysbrydol. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at les disgyblion, gan ddarparu cymorth pwrpasol i ddisgyblion wrth iddynt aeddfedu a datblygu. Fodd bynnag, nid yw gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o iaith a diwylliant Cymru wedi eu datblygu gystal.

Mae'r ysgol yn pennu disgwyliadau clir ar gyfer ymddygiad disgyblion. Mae staff yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn gyson ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae ymddygiad disgyblion yn gyson dda neu'n well. Mae'r ysgol yn delio'n effeithiol ag unrhyw ddigwyddiadau o fwlio. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Ceir systemau effeithiol ar gyfer nodi disgyblion y mae angen cymorth arnynt gyda'u dysgu. Mae staff yn cynllunio ac yn cydlynu'r ddarpariaeth yn dda a cheir cysylltiadau buddiol gydag asiantaethau allanol arbenigol. Mae athrawon yn arfarnu ac yn diweddarau cynlluniau addysg unigol a chofnodion i gynorthwyo disgyblion yn rheolaidd, ac mae hyn yn effeithio'n bwrpasol ar eu gwaith bob dydd. Mae'r ysgol yn cynnwys rhieni a gofawyr yn llawn yn y broses. Mae targedau yn glir a chaiff disgyblion fynediad llawn i holl feysydd y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o gynorthwywyr addysgu i gefnogi'r dysgu, yn y dosbarth a thrwy ddarpariaeth cymorth mewn grwpiau bach. Mae rhaglenni ymyrryd sydd wedi eu cynllunio'n dda yn helpu disgyblion i ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar gydag awyrgylch cynnes, teuluol. Mae staff yn annog disgyblion i drin rhai eraill gyda gofal ac i ddangos parch iddynt beth bynnag eu rhyw, hil neu gefndir. Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chaiff yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal at yr holl brofiadau dysgu.

Mae amgylchedd yr ysgol yn lân ac yn drefnus. Ceir ystod dda o adnoddau ym mhob ardal o'r adeilad i gefnogi dysgu disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn cynnal a chadw'r adeilad yn effeithlon. Fodd bynnag, daeth arolygwyr â mater diogelwch i sylw'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn ystod yr arolygiad.

Mae arddangosiadau deniadol a llawn gwybodaeth yn gwella'r amgylchedd dysgu ac yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth o faint priodol ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr. Mae'r ysgol wedi gwella ei defnydd o'r gofod sydd ar gael, er enghraifft trwy ddatblygu ardal cymorth i grwpiau bach ac ardal llyfrgell.

Ceir ardal fawr y tu allan sy'n cael ei chynnal yn dda. Mae adnoddau dysgu yn yr awyr agored yn cyfoethogi dysgu disgyblion ac yn hyrwyddo gweithgareddau difyr a chyffrous, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. Mae defnydd y staff o'r ardaloedd tu allan yn ehangu profiadau dysgu disgyblion yn effeithiol. Maent yn darparu manau dysgu hyblyg sy'n galluogi disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol yn eu dysgu eu hunain.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol, glir sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar wella deilliannau a'r ddarpariaeth ar gyfer pob disgybl. Caiff ei chefnogi'n dda gan aelodau'r uwch dîm arwain. Maent yn rhannu nodau cytûn ar gyfer gwella ansawdd y ddarpariaeth a chodi safonau. Mae arweinwyr, gan gynnwys llywodraethwyr, yn defnyddio gweithdrefnau rheoli perfformiad yn bwrpasol i nodi ffyrdd ymlaen ar gyfer gwella'r ysgol, fel datblygu medrau ymresymu mewn tasgau rhifedd.

Mae disgrifiadau swydd diweddar gan bob un o'r staff ac mae'r ysgol yn trefnu cyfarfodydd staff a rheolwyr yn rheolaidd. Mae'r arferion effeithiol hyn yn cynnig cyfleoedd da i bob un o'r staff gyfrannu at lywio cyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae arweinwyr yn dadansoddi ystod eang o ddata'n drwyadl. Maent yn rhannu deilliannau yn effeithiol gyda'r holl aelodau staff er mwyn sicrhau eu bod yn herio tanberfformiad, er enghraifft, drwy adolygu effaith adnoddau'r ysgol mewn mathemateg a thrwy ailstrwythuro cynllunio llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae hyn wedi gwella deilliannau disgyblion ar draws y cwricwlwm, yn enwedig mewn mathemateg.

Mae'r ysgol yn talu sylw da i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft wrth ddatblygu'r Cyfnod Sylfaen a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae arweinwyr wedi gwneud llai o gynnydd wrth ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu Cymraeg a'r dimensiwn Cymreig.

Mae llywodraethwyr yr ysgol yn darparu cymorth da i'r ysgol. Mae adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth yn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o brofiadau dysgu disgyblion a'r safonau y maent yn eu cyflawni. Drwy ymweliadau cyson, maent yn gallu canolbwyntio ar effaith yr addysgu ar safonau disgyblion. Gwnânt benderfyniadau gwybodus wrth arfarnu'r ddarpariaeth, gan arwain at gymarebau staffio gwell sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion. Maent yn herio'r ysgol yn drwyadl ac yn gadarn ynglŷn â pherfformiad disgyblion. Mae dealltwriaeth glir o feysydd i'w gwella gan y corff llywodraethol, ac mae'n dwyn yr ysgol i gyfrif yn llwyddiannus.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arwain wedi sefydlu amserlen bwrpasol a ffocysedig o weithgareddau hunanarfarnu. Ceir cylch effeithiol o weithgareddau lle mae arweinwyr a rheolwyr yn casglu gwybodaeth uniongyrchol werthfawr i lywio prosesau hunanarfarnu'r ysgol. Mae hunanarfarniad yr ysgol yn cynnwys pob un o'r staff ac yn defnyddio ystod eang o brosesau. Mae'r rhain yn cynnwys arsylwadau gwersi rheolaidd, craffu ar waith disgyblion, monitro cynlluniau athrawon a siarad â disgyblion. Mae hyn wedi effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth ac wedi gwella deilliannau disgyblion dros gyfnod.

Mae'r ysgol wedi datblygu diwylliant lle mae pob un o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn eu datblygiad proffesiynol. Gwneir cyfraniadau gwerthfawr gan staff at y broses hunanarfarnu drwy arfarnu eu perfformiad eu hunain a nodi meysydd i'w gwella. Mae'r rhain yn cyfrannu'n effeithiol at gynllun datblygu'r ysgol gyfan a thargedau rheoli perfformiad unigol. Mae'r ysgol yn ystyried barnau rhieni'n ofalus hefyd, drwy lenwi holiaduron a nosweithiau gwybodaeth rheolaidd am feysydd gwahanol o'r cwricwlwm a datblygiadau addysgol.

Yn ogystal, mae arweinwyr yn mynd ati'n rheolaidd a phwrpasol i ddadansoddi ystod eang o ddata ar berfformiad disgyblion. Maent yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu, ac mae blaenoriaethau gwella yn cysylltu'n uniongyrchol â chanfyddiadau'r gweithdrefnau hunanarfarnu. Mae hyn yn creu cynllun datblygu blynyddol effeithiol a phwrpasol i symud yr ysgol yn ei blaen.

Mae'r cynllun datblygu effeithiol yn nodi amserlenni perthnasol, personél allweddol, trefniadau monitro a chostau. Mae'r trefniadau ar gyfer adolygu a monitro'r targedau a chamau gweithredu wedi eu sefydlu'n dda. O ganlyniad, mae'r ysgol yn gallu nodi blaenoriaethau penodol a pherthnasol ar gyfer datblygiadau'r ysgol yn y dyfodol. Mae'n nodi'n llwyddiannus effaith mentrau ar ddeilliannau disgyblion, fel gwelliannau yng nghynnwys ac ansawdd gwaith ysgrifenedig estynedig disgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

At ei gilydd, mae'r ysgol wedi mynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, er bod cynnydd cadarn wedi'i wneud, mae'r elfennau herio disgyblion sy'n fwy abl a gwella defnydd disgyblion o'r Gymraeg yn parhau'n feysydd i'w datblygu ymhellach.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol wedi datblygu perthynas gadarnhaol gydag ystod eang o bartneriaid sy'n cyfrannu'n effeithiol at wella deilliannau ar gyfer disgyblion.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda â rhieni. Un nodwedd nodedig yw'r defnydd o ystod o gyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys gwefan yr ysgol, i roi gwybodaeth i rieni ac eraill am yr ystod o weithgareddau sy'n cael ei darparu gan yr ysgol. Mae rhieni'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd i gefnogi gweithgareddau ac mae cymdeithas rieni weithgar yn cefnogi'r ysgol yn dda. Mae wedi cyfrannu'n ariannol at ddarparu offer chwarae awyr agored effeithiol i ddisgyblion ym mharthau penodedig yr iard chwarae, ac adnoddau TGCh, fel llechi electronig.

Un cyswllt llwyddiannus iawn yw partneriaeth yr ysgol gyda pheirianwyr lleol a fu'n gweithio ochr yn ochr â disgyblion i adeiladu pont grog fawr. Fe wnaeth hyn wella deilliannau disgyblion wrth gynllunio, dylunio a chymhwyso'u rhifedd a'u medrau trefnu mewn prosiect ymarferol.

Mae gweithgareddau fel canu yng nghanol tref Wrecsam a phentref Yr Orsedd fel rhan o fenter gymunedol adeg Nadolig yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion berfformio'n hyderus o flaen pobl eraill.

Mae'r gweithio mewn partneriaeth gyda'r awdurdod lleol, y consortiwm rhanbarthol a chlystyrau gwahanol o ysgolion yn effeithiol. Mae athrawon yn cydweithredu'n bwrpasol i gymedroli gwaith disgyblion ac i rannu arfer dda, ac mae hyn yn arwain at welliannau yn ansawdd y dysgu. Mae disgyblion yn elwa ar ystod dda o weithgareddau pontio gydag ysgolion uwchradd lleol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n hwylus i'r cam nesaf yn eu dysgu. Yn ogystal, ceir trefniadau pontio da gyda nifer o leoliadau meithrin cyn-ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau gan staff â'r lleoliadau, a chyfleoedd i'r plant fynychu'r ysgol cyn dechrau yn y dosbarth meithrin.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau gwerthfawr â sefydliadau lleol ac ysgolion eraill sy'n cefnogi dysgu'r disgyblion trwy ddarparu adnoddau ac ymweliadau addysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymweld â'r ysgol uwchradd leol i ddefnyddio offer gwyddoniaeth datblygedig yn bwrpasol. Mae offer yr asiantaeth iechyd, a ddefnyddir gan staff yr ysgol, yn addysgu disgyblion hefyd ynglŷn â phwysigrwydd hylendid personol ac yn hyrwyddo'u lles yn llwyddiannus.

Rheoli adnoddau: Da

Mae digon o staff â chymwysterau a phrofiad addas yn yr ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae arweinwyr yn defnyddio staff addysgu a staff cymorth yn effeithlon i ddiwallu anghenion disgyblion ac i wneud y defnydd gorau o arbenigedd staff. Ceir trefniadau addas i roi amser i athrawon gynllunio, paratoi ac asesu gwaith disgyblion. Mae uwch arweinwyr yn cael amser digyswllt penodol yn ychwanegol er mwyn cyflawni dyletswyddau arwain, ac mae hyn yn helpu arferion hunanarfarnu a chynllunio datblygiad yr ysgol.

Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol addas i gefnogi meysydd a nodwyd drwy'r broses rheoli perfformiad. Mae'r rhain yn cyfrannu'n dda tuag at gael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth.

Gwneir defnydd da o'i chyllid gan yr ysgol ac mae'n rheoli ei chyllideb yn dda i sicrhau ei bod yn dyrannu arian yn effeithlon er mwyn cefnogi blaenoriaethau gwella'r ysgol.

Mae'r manau dan do a'r manau awyr agored wedi'u trefnu'n dda ac yn bodloni anghenion y disgyblion yn effeithiol. Gwneir defnydd da gan arweinwyr o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella deilliannau ar gyfer disgyblion targedig, er enghraifft drwy ariannu staff ychwanegol i gynorthwyo disgyblion â thasgau llythrennedd drwy weithgareddau mewn grwpiau bach.

Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol yn yr ysgol a gyda phartneriaid ar fentrau sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth, safonau disgyblion a'u lles. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi hybu rôl y cyngor ysgol drwy ymateb yn gadarnhaol i farnau disgyblion.

O ystyried y deilliannau cadarnhaol a gyflawnir gan ddisgyblion, y ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth bwrpasol, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

6653028 - Ysgol San Pedr

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	221
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	5.9
Grŵp PYD	1 (PYD<=8%)

Cyfnod Sylfaen

	2012	2013	2014	2015
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2	35	34	32	24
Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)	85.7	91.2	100.0	95.8
Chwarter meincnod	2	2	1	2
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	35	34	32	24
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	88.6	91.2	100.0	95.8
Chwarter meincnod	3	2	1	2
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	28.6	38.2	46.9	54.2
Chwarter meincnod	2	2	2	2
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Datblygiad mathemategol (MDT)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	35	34	32	24
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	85.7	94.1	100.0	95.8
Chwarter meincnod	3	2	1	3
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	25.7	41.2	71.9	54.2
Chwarter meincnod	3	1	1	1
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	35	34	32	24
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	97.1	97.1	100.0	95.8
Chwarter meincnod	2	3	1	4
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	51.4	61.8	87.5	62.5
Chwarter meincnod	2	2	1	3

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deiliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

6653028 - Ysgol San Pedr

Nifer y disgyblion ar y gofrestr 221
 Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd 5.9
 Grŵp PYD 1 (PYD<=8%)

Cyfnod allweddol 2

	2012	2013	2014	2015
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6	29	30	30	26
Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)	86.2	100.0	96.7	96.2
Chwarter meincnod	3	1	2	2
Saesneg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	29	30	30	26
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	86.2	100.0	96.7	96.2
Chwarter meincnod	3	1	2	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	44.8	50.0	46.7	42.3
Chwarter meincnod	2	1	3	3
Cymraeg iaith gyntaf				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Mathemateg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	29	30	30	26
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	93.1	100.0	96.7	100.0
Chwarter meincnod	2	1	2	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	44.8	56.7	50.0	53.8
Chwarter meincnod	1	1	2	2
Gwyddoniaeth				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	29	30	30	26
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	89.7	100.0	100.0	96.2
Chwarter meincnod	3	1	1	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	44.8	56.7	53.3	46.2
Chwarter meincnod	2	1	2	3

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	100	99 99%	1 1%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	90	72 80%	18 20%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	98	89 91%	9 9%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	95	88 93%	7 7%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	92	87 95%	5 5%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	93	91 98%	2 2%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	97	94 97%	3 3%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	100	95 95%	5 5%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	98	77 79%	21 21%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	97	83 86%	14 14%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	92	46 50%	46 50%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	98	72 73%	26 27%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymatebion i'r holiadur i rieni

yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	50	39 78%	10 20%	1 2%	0 0%	2	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	52	41 79%	10 19%	1 2%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		73%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	51	39 76%	11 22%	1 2%	0 0%	0	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	51	31 61%	15 29%	5 10%	0 0%	1	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		62%	34%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	50	32 64%	10 20%	8 16%	0 0%	2	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		48%	47%	4%	1%		
Teaching is good.	52	33 63%	17 33%	2 4%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		61%	36%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	49	37 76%	12 24%	0 0%	0 0%	2	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		65%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	50	29 58%	17 34%	4 8%	0 0%	2	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		49%	43%	6%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	50	32 64%	12 24%	4 8%	2 4%	2	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		60%	35%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	51	32 63%	19 37%	0 0%	0 0%	1	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		60%	37%	2%	0%		
My child is safe at school.	52	38 73%	14 27%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	32%	2%	1%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	46	27 59%	15 33%	4 9%	0 0%	5	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		56%	38%	4%	1%		
I am kept well informed about my child's progress.	49	23 47%	20 41%	6 12%	0 0%	3	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhentyn.
		49%	41%	8%	2%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	52	42 81%	6 12%	2 4%	2 4%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	47	23 49%	22 47%	2 4%	0 0%	5	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	51	33 65%	18 35%	0 0%	0 0%	1	Mae'r ysgol yn helpu fy mhentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	37	26 70%	8 22%	3 8%	0 0%	15	Mae fy mhentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
There is a good range of activities including trips or visits.	52	34 65%	16 31%	2 4%	0 0%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
The school is well run.	50	39 78%	7 14%	4 8%	0 0%	2	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Nicholas Jones	Arolygydd Cofnodol
William Glyn Griffiths	Arolygydd Tîm
Susan Elizabeth Roden	Arolygydd Lleyg
Robert Paul Jones	Arolygydd Cymheiriaid
Helen Pritchard	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn 11 oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.